* = Ffigwr is yn welliant

# Atodiad 1- Mesurau Perfformiad

| Cyf. | Mesur Cyflawni | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 | Gwybodaeth Ddiweddaraf |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gofal – OED23** | Canran o Bobl Hyn a Phobl sydd a Anableddau Corfforol lle gweler cynnydd mewn cyflawni'r hyn sy'n bwysig iddynt hwy. | Mesur newydd | Mesur newydd | Mesur newydd | Gweler sylwadau |
| **Gofal – OED24** | *Outcome Star* yr unigolion | Mesur newydd | Mesur newydd | Mesur newydd | Gweler sylwadau |
| **Gofal – Hol/001** | Pobl sy'n nodi y gallent wneud yr hyn sy'n bwysig iddynt (holiadur) | Mesur newydd | Mesur newydd | Mesur newydd | Gweler sylwadau |
| **Gofal - SCA/001** | Cyfradd oedi wrth drosglwyddo gofal am resymau gofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 75+ oed. * | 1.55 | 1.05 | 2.38 | 2.1 |
| **Gofal - OED003** | Galluogi - Canran o achosion sydd wedi derbyn cyfnod o alluogi sy'n gadael heb becyn gofal. | 54% | 45% | 55% | 53% |
| **Gofal - SCA/002a** | Cyfradd y bobl oedrannus (65 oed neu drosodd) Sy'n cael cymorth i fyw gartref fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 65 oed a throsodd. * | 46<br><br>(4.6%) | 45<br><br>(4.5%) | 43<br><br>(4.3%) | 42<br><br>(4.2%) |
| **Gofal - SCA/002a** *LLEOL* | Cyfradd y bobl oedrannus (65 oed neu drosodd) Sy'n cael cymorth i fyw gartref fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 65 oed a throsodd. * | 79<br><br>(7.9%) | 78<br><br>(7.8%) | 73<br><br>(7.3%) | 73<br><br>(7.3%) |
| **Gofal - SCA/002b** | Cyfradd y bobl oedrannus (65 oed neu drosodd) y mae'r awdurdod yn rhoi cymorth iddynt mewn cartrefi gofal fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 65 oed neu drosodd ar 31 Mawrth. * | 26<br><br>(2.6%) | 24<br><br>(2.4%) | 23<br><br>(2.3%) | 23<br><br>(2.3%) |
| **Gofal - SCA/002b** *LLEOL* | Cyfradd y bobl oedrannus (65 oed neu drosodd) y mae'r awdurdod yn rhoi cymorth iddynt mewn cartrefi gofal fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 65 oed neu drosodd ar 31 Mawrth ac | 20 | 18 | 17 | 17 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | eithrio rhai sy'n hunan ariannu. * | (2.0%) | (1.8%) | (1.7%) | (1.7%) |
| **Gofal - SCA/019** | O'r atgyfeiriadau amddiffyn oedolion sydd wedi'u cwblhau yn ystod y flwyddyn, y canran lle mae'r perygl wedi'i reoli | 96% | 100% | 97% | 100% |
| **Gofal - SCA/019** *LLEOL* | O'r atgyfeiriadau amddiffyn oedolion sydd wedi'u cwblhau yn ystod y flwyddyn, y canran lle mae'r perygl wedi'i reoli (gan eithrio'r rhai sydd wedi gwrthod ymyrraeth) | - | - | 99% | 100% |

**Gofal – OED23** – Trefniadau mewn lle i fod yn adrodd ar y mesur hwn ond mae'r wybodaeth sy'n bwydo i mewn i'r mesur hwn yn hollol ddibynnol ar y wybodaeth sy'n cael ei gyflwyno fel rhan o'r mesur OED024 (*Outcome Star* yr unigolion).

**Gofal - OED24 -** Mae datblygiad y mesur hwn yn mynd law yn llaw hefo prif ffrydio'r ffordd newydd o weithio sy'n cael ei yrru gan Brosiect G2 Gweithio'n Integredig.

**Gofal – Hol/001 -** Fel rhan o ofynion y ddeddf newydd mae holiadur yn cael ei anfon allan i dros 1,600 o ddefnyddwyr er mwyn cael dealltwriaeth o'r bobl hynny sy'n nodi eu bod yn 'gallu gwneud yr hyn sy'n bwysig iddynt'. Disgwylir y bydd y gwaith o ddadansoddi'r canlyniadau wedi ei wneud erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

**Gofal - SCA/001 -** Mae'r perfformiad y mesur hwn yn peri pryder (cyfradd o 2.1 hyd at Fis Gorffennaf). Pe byddai'r perfformiad yn parhau'r un fath am weddill y flwyddyn rhagwelir y byddwn yn perfformio dipyn is na chyfartaledd Cymru - amcan perfformiad o 6.2 o gymharu â chanolrif Cymru (4.9) yn 15/16.

**Gofal - SCA/002a** - Nid yw'r mesur cenedlaethol hwn yn cyfrifo'r bobl hynny sy'n derbyn gwasanaethau mwy ataliol eu natur e.e. Teleofal a Galluogi. Mae'r mesur yn cynnwys yn unig y gwasanaethau traddodiadol e.e. Gofal Cartref. Er mwyn cael darlun llawn o'r bobl hynny sy'n cael cefnogaeth yn eu cartref, mae fersiwn lleol o'r mesur wedi cael ei greu (**SCA/002a** *LLEOL*).

**Gofal - SCA/002b** - Mae'r mesur cenedlaethol hwn yn cyfrifo'r 'hunan arianwyr' sydd yn byw yng Nghartrefi Preswyl y Sir. Mae gan Wynedd nifer o gartrefi mewnol o gymharu â gweddill Cymru, ac mae cyfri 'hunan arianwyr' yn gallu drysu'r sefyllfa wrth gymharu'n genedlaethol. Mae fersiwn lleol wedi ei greu ar gyfer eithrio'r 'hunan arianwyr' (**SCA/002b** *LLEOL*).

**Gofal - SCA/019** - Nid yw'r mesur cenedlaethol hwn yn eithrio'r unigolion sydd wedi gwrthod ymyrraeth. Mae fersiwn lleol wedi ei greu sy'n eithrio'r unigolyn sydd wedi gwrthod ymyrraeth (**SCA/019** *LLEOL*) a thybir fod hyn yn rhoi gwell darlun o'r gwir sefyllfa.